

RHANBARTH LLAIS POWYS

ADRODDIAD CRYNO AR YR HYN RYDYM WEDI'I GLYWED YM MHOWYS



**Ymgysylltu â Ffocws Ardal Ystradgynlais
Medi 2023**

FFORMATAU HYGYRCH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.

CYNNWYS

Amdano Llais.....	4
Yr Hyn a Wnaethom	5
Yr Hyn a Glywsom.....	7
Yn Gryno	16
Atodiad A	17
Ymateb gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys	17
Atodiad B	19
Ymateb gan Gyngor Sir Powys	19
Diolch	24
Adborth	24
Manylion Cyswilt	24

AMDANO LLAIS



Rydym ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arny'n nhw mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw


Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch adborth i lunio'ch gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb ac yn unol â mentrau cenedlaethol i gasglu barn pobl.

A phan aiff pethau o chwith rydym yn eich cefnogi i wneud cwynion.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "claf a chyhoeddus" mewn gwahanol rannau o Gymru.



Ym Mhowys, ar gyfer ein hymgysylltiad lleol, penderfynom adlewyrchu'r dull 13 ardal a ddefnyddir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u canoli o amgylch trefi mwyaf Powys a'r ardaloedd cyfagos.

Roeddem am ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â phobl o bob oed a gyda diddordebau gwahanol a gwrando ar eu barn am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Trefnwyd bod gennym bresenoldeb yn ardal Ystradgynlais ar gyfer mis Medi. Gwahoddwyd gwirfoddolwyr Llais i fynychu gyda staff ac roedd gennym un gwirfoddolwr a oedd yn gallu cymryd rhan. Gwnaethom sicrhau, ar gyfer pob diwrnod yr oeddem yn yr ardal, roedd nifer o sesiynau i'w mynychu felly gallai'r tîm sy'n teithio i lawr i gyd rhannu lifft yn y car ac yna gwahanu wrth gyrraedd.

Mae'r rhesymau dros yr ymgysylltiad penodol hwn fel a ganlyn:

- Codi ymwybyddiaeth o Llais ac ymgysylltu â'r cyhoedd
- I ledaenu ymwybyddiaeth o Wasanaeth Eiriolaeth Cwynion Llais
- Cael barn pobl am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Gofyn am adborth ar iechyd a gofal cymdeithasol gwledig
- Annog pobl i ystyried dod yn wirfoddolwr i Llais

Gwnaethom ymgysylltu â thua 200 o bobl yn ystod y mis. Roedd rhai pobl newydd dynnu'r taflenni gwybodaeth i ffwrdd, tynnodd eraill wybodaeth a dolenni i'n harolygon ar-lein ac roedd rhai pobl yn barod i rannu eu barn â chynrychiolwyr Llais. Roedd copïau papur o'r arolygon ar gael i bobl nad oeddent yn gallu eu cwblhau ar-lein. Cafodd copïau papur o arolygon eu postio i Feddygfa Grŵp Ystradgynlais hefyd a gofynnwyd i staff eu harddangos yn eu hystafelloedd aros yn y feddygfa.

Lle aethon ni

6 Medi

Bore Coffi Coelbren
Yr Hwb yn Swyddfa Bost a Chaffi Abercraf
Grŵp Cymorth Cymru yn erbyn Arthritis

12 Medi

Clwb Yr Henoed Coelbren
Hwb Cynnes Ystradgynlais
Ffitrwydd Dros 50 oed Ystradgynlais
Hwb Lles Ystradgynlais

15 Medi

Bar Te Ffrindiau Ystradgynlais
Cleifion Allanol UMA/Cleifion Allanol/Pelydr-x Ysbyty Ystradgynlais
Canolfan Gwirfoddolwyr Ystradgynlais

21 Medi

Llyfrgell Ystradgynlais:
Coffi a sgwrs – 10.30-12yp
Ysgrifennu Creadigol – 11-12.30yp
Grŵp Gwnïo – 12-2yp
Grŵp Gwau Purls of Wisdom – 2-3.30yp
Grŵp Awdioleg

Canolfan Gwirfoddolwyr Ystradgynlais
Caffi Cymunedol
Banc Bwyd Cymunedol

25 Medi

Meddygfa Pengorof
Tesco

28 Medi

Clwb Ieuenctid Ystradgynlais

Pwnc	Nifer y bobl a roddodd sylwadau
Mynediad at Feddygon Teulu	
Positif	18
Gallai wneud yn well	24
Deintyddiaeth	
Positif	3
Gallai wneud yn well	14
Mynediad at yr ysbyty	
Positif	11
Gallai wneud yn well	7
Gofal yr Henoed	
Positif	5
Gallai wneud yn well	8
Gwasanaeth Fferylliaeth	
Gallai fod yn well	3
Pellter i wasanaethau	
Gallai wneud yn well	3
Pryderon Eraill	2

Yn ystod y mis, cawsom sylwadau a oedd yn adlewyrchu ystod o brofiadau a barn, gyda rhai cleifion yn rhannu profiadau cadarnhaol, tra bod eraill yn wynebu heriau wrth gael mynediad at wasanaethau a chyfleu eu hanghenion yn effeithiol.

Gellir crynhoi'r adborth gan bobl yn y gymuned fel a ganlyn:

Mynediad at Feddygon Teulu

- Canmolodd nifer o unigolion Feddygfa Pengorof am ei staff dymunol a chwrtais, rhwyddineb cael apwyntiadau a gofal gan nyrsys.
- Derbyniodd Practis Meddygol Blaendulais ganmoliaeth am ei wasanaeth, gyda phobl yn dweud eu bod wedi cael eu gweld yn gyflym.
- Roedd teimladau cymysg am y system brysbennu ym Mhractis Ystradgynlais. Nid oedd rhai pobl yn hoffi gorfod egluro i'r derbynnnydd

y rheswm dros eu galwad. Cafwyd rhai sylwadau am hyd yr amser aros am alwad yn ôl.

- Roedd pryderon a rhwystredigaeth wedi eu mynegi gyda'r amseroedd aros hir ar y ffôn wrth geisio cysylltu â Meddygfa Pengorof a Chanolfan Gofal Sylfaenol Dyffryn Dulais. Roedd sylwadau am y gost bosibl i ddefnyddwyr ffonau symudol talu wrth fynd.
- Soniodd rhai pobl am y diffyg apwyntiadau sydd ar gael pan lwyddon nhw i fynd drwodd ar y ffôn.
- Siaradodd pobl am yr anhawster o gael apwyntiadau wyneb yn wyneb gyda meddyg, a arweiniodd weithiau at broblemau wrth gael diagnosis a thriniaeth.
- Anhawster i bobl hŷn ddefnyddio'r system apwyntiadau, yn enwedig galwadau ffôn yn gynnwys yn y bore ac anhawster esbonio'r broblem dros y ffôn.
- Soniodd cleifion am anawsterau wrth gael mynediad at feddygfeydd cangen Ystalyfera ac Abercraf. Roedd teimlad nad oedd digon o staff yn y meddygfeydd hyn. Roedd pryderon hefyd am yr anhawster cyrraedd Meddygfa Pengorof i rai cleifion oherwydd ei leoliad.
- Siaradodd rhai pobl am faterion o ran cael presgripsiynau, tra bod eraill wedi mynegi pryderon ynghylch cael meddyginiaeth heb ymgynghori priodol, ee pan ddarparwyd presgripsiwn o alwad ffôn.

Deintyddiaeth

Ar y cyfan, roedd cymysgedd o foddhad a rhwystredigaeth gydag argaeledd ac ansawdd gwasanaethau deintyddol yn yr ardal, gyda rhestrau aros hir ac opsiynau cyfyngedig i ddeintyddion y GIG yn bryderon cyffredin.

- Mae'r deintydd GIG yn yr ardal yn uchel ei barch ar y cyfan, ond yn aml mae amser aros yn hir am apwyntiadau.
- Roedd rhai pobl yn cwyno am ganslo apwyntiadau a'r anallu neu'r aros hir iddynt gael eu haildrefnu.
- Mae rhai unigolion wedi troi at driniaeth breifat oherwydd problemau gyda deintyddion y GIG.
- Cafwyd profiadau cymysg gyda gofal deintyddol preifat ac anfodlonrwydd gyda'r gost.
- Mae'r diffyg deintyddion sydd ar gael yn yr ardal wedi arwain at rai pobl yn gorfod chwilio am ofal deintyddol mewn rhanbarthau cyfagos.

Mynediad at yr Ysbyty

- Mynegodd pobl werthfawrogiad o'r holl wasanaethau a ddarparwyd yn Ysbyty Ystradgynlais - gyda phobl yn canmol yr Uned Mân Anafiadau am ei gwasanaeth prydlon; cafwyd sylwadau cadarnhaol am y nyrs IBS; canmolwyd yr Adran Awdioleg am fod yn gyfeillgar ac effeithlon; adroddwyd bod staff yr ysbyty yn ofalgar ac yn gefnogol yn ystod pandemig COVID.
- Mynegwyd pryderon am danddefnyddio Ysbyty Ystradgynlais, sy'n cael ei ystyried yn adnodd pwysig iawn yn y gymuned.
- Ystyriwyd bod cau'r Ysbyty Dydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar y gymuned ac roedd galwadau iddo gael ei ail-agor.
- Cafwyd adborth cadarnhaol am wasanaeth trin diabetes a gofal coronaidd Ysbyty Treforys.
- Cafwyd profiad cadarnhaol am driniaeth canser, gyda chefnogaeth gymunedol ym Mhowys a thriniaeth yn Ysbyty Singleton.
- Roedd pryderon am amseroedd aros hir iawn ar gyfer llawdriniaethau a gynlluniwyd, yn enwedig llawdriniaeth ysgwydd a phen-glin. Siaradodd pobl am arosiadau o 5, 6 ac 8 mlynedd ac roedd rhai pobl wedi troi at ofal iechyd preifat oherwydd yr aros helaeth.
- Clywsom ganmoliaeth i griwiau ambiwlans ond pryderon am adnoddau ambiwlans yn sownd y tu allan i adrannau brys, gan arwain at ddarpariaeth annigonol ym Mhowys.
- Adroddwyd ei bod yn anodd cael gafael ar offer a argymhellir ar gyfer babi oherwydd cod post Powys ac awgrymwyd y dylai'r rhieni brynu'r offer eu hunain.
- Adroddwyd am heriau wrth gael mynediad at ofal mamolaeth, gyda chlaf yn cael ei anfon i Ysbyty Castell-nedd Port Talbot i ddechrau ac yna'n gorfod trosglwyddo i Ysbyty Singleton am nad yw meddygon ar gael yng Nghastell-nedd.

Gofal yr Henoed

- Adroddwyd am brofiadau cadarnhaol gyda gwasanaethau fel Canolfan Ddydd Tŷ Croeso, Canolfan Argyfwng Castell-nedd a'r gwasanaeth cymhorthion clyw misol yn Llyfrgell Ystradgynlais.
- Roedd canmoliaeth i nyrsys ardal a Hosbis Dewi Sant am eu cefnogaeth a gwneud trefniadau ar gyfer gofal diwedd oes yn y cartref.
- Roedd pryderon am argaeledd gweithwyr cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.

- Roedd awydd am well cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia yn lleol, gan gynnwys yr angen am weithiwr allweddol ymroddedig a allai ddarparu cefnogaeth ac arweiniad cyson.
- Roedd angen mwy o opsiynau gofal yn y gymuned oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio a heriau daearyddol yr ardal, a all gymhlethu mynediad at wasanaethau.
- Clywsom am amharodrwydd pobl hŷn i gwyno am wasanaethau oherwydd ofn.

Gwasanaethau Fferylliaeth

- Roedd pryderon ynghylch argaeledd rhai meddyginiaethau a fferyllfeydd nad oedd modd iddynt gyflawni presgripsiynau.
- Roedd rhwystredigaeth nad oedd fferyllfa gymunedol yn darparu rhai gwasanaethau disgwylidig, ee adolygiad Clefyd y Gwair.
- Siaradodd pobl am anhawster wrth ddod o hyd i fferyllfa a allai ddsbarthu meddyginiaeth y tu allan i oriau, gydag enghraifft o bresgripsiwn yn cael ei ddarparu yn Ysbyty Treforys ar ddydd Sul.

Gwasanaethau Cymdeithasol

- Roedd cwestiynau am degwch mynediad at wasanaethau, yn enwedig o amgylch Dechrau'n Deg.

Pellter i wasanaethau

- Mae heriau sy'n gysylltiedig â'r pellter i wasanaethau gofal iechyd. Soniodd un person bod eu merch wedi gorfod rhoi'r gorau i gael brechiadau yn Aberhonddu oherwydd trafferthion gyda thrafnidiaeth gyhoeddus.

Pryderon Eraill

- Codwyd pryderon am dai, yn enwedig mewn perthynas â diffyg tai cymdeithasol a chost uchel adeiladau newydd. Roedd pryder y gallai datblygiadau newydd yn yr ardal straenio gwasanaethau lleol, ac roedd angen gwell seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol.

- Roedd heriau yn gysylltiedig â gwaredu cynhyrchion anymataliaeth, gyda'r diffyg gwasanaeth a ddarperir gan y cyngor at y diben hwn a'r gost o waredu bagiau yn bryder.

Trafodaethau gyda Phobl Ifanc

- Siaradodd pobl ifanc oedd yn mynychu Clwb Ieuenctid Ystradgynlais am brofiadau cadarnhaol o amrywiol wasanaethau iechyd - mynychu apwyntiadau meddyg teulu, deintydd, orthodonteg, damweiniau ac achosion brys ac ysbytai ar gyfer cyflyrau iechyd hirdymor. Dywedon nhw fod meddygon a nyrsys yn siarad yn uniongyrchol â nhw mewn ffordd roedden nhw'n gallu deall.
- Roedd ymwybyddiaeth gyfyngedig o wasanaeth nyrsys yr ysgol a ChatHealth.
- Soniodd rhai pobl ifanc am asesiadau ar gyfer ADHD/Awtistiaeth ond roeddent yn ansicr ynghylch y canlyniadau a'r amseroedd aros.

Arolygon

Roedd gennym ddau arolwg ar gael i bobl eu cwblhau, naill ai ar-lein neu drwy gopi papur. Cawsom arolwg cyffredinol lle gallai pobl ddweud wrthym am unrhyw wasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol a gawsant, ac arolwg am wasanaethau meddygon teulu.

Arolwg Cyffredinol – Dywedwch wrthym am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rydych wedi'u derbyn

Cawsom 8 ymateb i'r arolwg hwn gan bobl sydd â chod post SA.

Y gwasanaethau y gwnaeth pobl sôn amdanynt oedd:

Gwasanaethau Meddygon Teulu	2	Dywedodd y ddau ymatebydd ei bod yn cael anhawster cael apwyntiadau amserol, a arweiniodd at oedi cyn derbyn triniaeth berthnasol.
Cludiant cyhoeddus i allu cael mynediad at wasanaethau	2	Pwysleisiodd dau ymatebwr yr angen am well trafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad at wasanaethau, gydag un person yn sôn am fyw mewn ardal anghysbell yn y cymoedd ac yn methu gyrru.

Awdioleg	1	Gwasanaeth ardderchog yn yr ysbyty lleol.
Diffyg tai cymdeithasol	1	Pryder am ddiffyg tai cymdeithasol yn yr ardal, yn enwedig i bobl hŷn.
Deintydd	1	Anhawster cael apwyntiad a rhwystredigaeth bod y cwestiwn cyntaf a ofynnwyd yn ymwneud â statws GIG neu breifat, yn hytrach na mynd i'r afael â'r mater deintyddol. Fe wnaethant hefyd sôn am y gost uchel o weld hylenydd.
Gwasanaethau Cymdeithasol	1	Soniodd ymatebydd sydd â merch ag Awtistiaeth nad yw bellach mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol. Mynegwyd pryder am gyfleoedd cyfyngedig i'w merch ryngweithio o fewn y gymuned leol.

Arolwg Cleifion am Wasanaethau Meddygon Teulu

Cawsom 43 o arolygon wedi'u cwblhau.

Enw'r Practis	Nifer yr ymatebion
Practis Grŵp Ystradgynlais (meddygfeydd Pengorof, Abercraf, Ystalyfera)	32
Canolfan Gofal Sylfaenol Dyffryn Dulais	5
Partneriaeth Amman Tawe	2
Practis heb ei enwi	2

Rhwyddineb gwneud apwyntiadau arferol

Cafwyd ymateb cymysg, gyda 19 o bobl yn ymateb eu bod yn ei chael hi'n hawdd neu'n iawn a 22 o bobl yn ymateb eu bod yn ei chael hi'n anodd neu'n anodd iawn wrth wneud apwyntiadau arferol.

Gwnaeth mwyafrif y bobl (31) eu hapwyntiadau dros y ffôn, ac roedd eraill yn gwneud apwyntiadau wyneb yn wyneb neu drwy wasanaeth Fy Iechyd Ar-lein.

Roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn gallu derbyn eu hapwyntiad mewn llai na 48 awr, 6 o bobl wedi aros o dan wythnos, 8 o bobl wedi aros 1-2 wythnos, 4 o bobl wedi aros 2-3 wythnos a bu'n rhaid i 5 o bobl aros mwy na 3 wythnos.

Rhwyddineb cael mynediad at apwyntiadau brys

Cafwyd ymateb cymysg hefyd am wneud apwyntiadau brys, gydag 11 o bobl yn nodi ei bod yn hawdd neu'n hawdd iawn, 14 o bobl yn nodi ei fod yn iawn ac 14 o bobl yn nodi ei fod yn anodd neu'n anodd iawn.

Defnyddio Fy Iechyd Ar-lein

Dim ond 11 o bobl a ddywedodd eu bod wedi defnyddio Fy Iechyd Ar-lein. Roedd 26 o bobl wedi clywed amdano ond heb ei ddefnyddio ac nid oedd 8 o bobl yn meddwl ei bod ar gael yn eu meddygfa.

Rhwyddineb gofyn am bresgripsiwn ailadroddus

Nid oedd y rhan fwyaf o bobl yn cael unrhyw drafferth gofyn am eu presgripsiynau ailadroddus. Mae rhai pobl yn defnyddio fy Iechyd Ar-lein at y diben hwn.

Preifatrwydd wrth y Dderbynfa

Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod ganddynt ddigon o breifatrwydd yn ardal desg y dderbynfa ac roedd tua hanner yn teimlo y gallai fod yn well neu nad oedd yn breifat.

Teithio i'r Feddygfa

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn teithio i'w meddygfa mewn car. Dywedodd 8 o bobl eu bod fel arfer yn cerdded, dywedodd 4 o bobl eu bod yn defnyddio tacsï weithiau, dywedodd un person y byddent yn defnyddio'r cynllun ceir cymunedol ac roedd 1 person yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Amseroedd Agor y Feddygfa

Dim ond un person oedd yn anhapus ag oriau agor y feddygfa. Dywedodd y rhan fwyaf o bobl (31) eu bod yn hapus neu'n hapus iawn ac roedd 11 o bobl yn meddwl ei fod yn iawn.

Defnyddioldeb Staff

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar ddefnyddioldeb staff, gyda 21 yn hapus iawn, 10 yn hapus a 10 yn meddwl ei fod yn iawn. Doedd 2 o bobl ddim yn hapus gyda'r staff.

Cyfathrebu

Dim ond 1 person a ddywedodd nad oeddent yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

Roedd 36 o bobl yn teimlo bod y cyfathrebu a gawsant gan eu meddygfa yn ddigonol.

Rhai awgrymiadau ar gyfer gwella oedd:

- Defnyddio galwad ffôn neu neges testun yn hytrach na llythyr
- Heb orfod ffonio sawl gwaith ar gyfer canlyniadau profion
- Llythyrau apwyntiad mwy amserol – cyrhaeddodd rhai llythyrau'n hwyr, yn agos iawn at neu ar ôl dyddiad yr apwyntiad

Sylwadau am y gwasanaeth

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu amrywiaeth o bryderon yn ymwneud â hygyrchedd ffôn, argaeledd apwyntiadau ac argaeledd staff. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- System ffôn aneffeithlon - Soniodd cleifion ei bod yn heriol mynd drwodd ar y ffôn i wneud apwyntiadau. Yn aml roedd yn rhaid iddynt ffonio sawl gwaith ac yna dywedwyd wrthynt weithiau mai dim ond ar gyfer argyfyngau yr oedd apwyntiadau ar gael.
- System apwyntiadau anhyblyg - Cafodd y system o alw yn y bore am feddyg i benderfynu a oes angen apwyntiad wyneb yn wyneb ei feirniadu am ei ddiffyg hyblygrwydd.
- Amseroedd aros hir - Mynegodd llawer o gleifion rwystredigaeth gydag amseroedd aros hir am alwad meddyg yn ôl. Bu'n rhaid i rai aros ychydig oriau cyn derbyn galwad.
- Diffyg cefnogaeth i gleifion agored i newid - Codwyd pryderon am y diffyg cefnogaeth i gleifion bregus.
- Staffio - Galwodd cleifion am fwy o staff i drin galwadau ffôn a dychwelyd galwadau'n brydlon. Cafwyd sylwadau am yr angen am fwy o staff clinigol, yn enwedig nyrsys ardal. Soniwyd am ddibyniaeth ar feddygon locwm. Nodwyd pryderon am feddygon rhan-amser.
- Meddygon yn rhuthro - Roedd rhai cleifion yn teimlo bod y meddygon yn rhuthro ac yn anystyriol yn ystod apwyntiadau.
- Canmoliaeth i staff – Roedd sylwadau cadarnhaol yn amlygu defnyddioldeb ymarferwyr nyrsio a staff derbynfa.
- Gwasanaeth dwyieithog - roedd yna sylw yn gofyn am yr opsiwn i siarad yn Gymraeg.
- Materion yn ymwneud â lleoliad – Codwyd hygyrchedd i driniaeth ac apwyntiadau fel pryder i gleifion sy'n byw ym Mhowys ond yn defnyddio practis meddyg teulu mewn rhanbarth arall. Enghraifft a roddwyd oedd cael mynediad at ffisiotherapi, lle nad oedd y claf yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth yng Nghastell-nedd (a oedd yn gyflym) ond roedd yn rhaid aros i gael ei gyfeirio drwy system Powys (llawer arafach).
- Optio allan o'r brechlyn – Roedd awgrym ynghylch caniatáu i gleifion optio allan o frechiadau ffliw a COVID yn hytrach na'u gohirio, er mwyn arbed adnoddau'r GIG.
- Teithio ar gyfer apwyntiadau - Soniodd rhai cleifion eu bod yn gorfod teithio i feddygfa wahanol pan nad oedd apwyntiadau ar gael yn eu meddygfa agosaf.
- Gobaith am well gwasanaeth - Mynegodd rhai cleifion obaith am ddychwelyd i lefel y gwasanaeth oedd ganddyn nhw cyn y cyfnod clo.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau a phrofiadau.

Ar y cyfan, mae pobl yn gwerthfawrogi gwasanaethau y maent yn eu derbyn, mewn llawer o achosion yn canmol staff a'r gofal y maent yn ei ddarparu. Fodd bynnag, clywsom bryderon hefyd am anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau am wahanol resymau.

Rydym yn ymwybodol o'r pwysau aruthrol yn y system iechyd a gofal cymdeithasol ond byddai'r gallu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd yn debygol o arwain at well profiad i'r boblogaeth.

Ymateb gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys

Diolch am y cyfle i wneud sylwadau ar adroddiadau eich gweithgareddau ymgysylltu diweddar:

- Ymgysylltu â Ffocws Ardal Ystradgynlais (Medi 2023)

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod llais cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalmwyr, y cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach wrth wraidd ein cynlluniau, blaenoriaethau a gwella gwasanaethau.

Mae'r ymrwymiad hwn yn adlewyrchu dyletswyddau statudol pwysig i gyrff y GIG, gan gynnwys drwy'r Ddyletswydd Ansawdd newydd fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Fel rhan o'r Ddyletswydd Ansawdd hon, mae'n rhaid i ni ystyried y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (dde) newydd sy'n darparu fframwaith i asesu ansawdd a gwella canllawiau. Yn bwysig, mae "Canolbwyntio ar yr Unigolyn" yn un o barthau allweddol ansawdd ochr yn ochr â Diogel, Amserol, Effeithiol, Effeithlon a Theg.

Mae'r adroddiad gan Llais yn darparu ystod eang o adborth sy'n cwmpasu ystod eang o wahanol adrannau a chyfarwyddiaethau o fewn y bwrdd iechyd, yn ogystal â gwasanaethau a gomisiynir gan y bwrdd iechyd gan contractwyr gofal sylfaenol lleol (e.e. meddygon teulu, deintyddion) a darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal eraill (e.e. llwybrau at wasanaethau aciwt ac arbenigol a ddarperir gan ysbytai cyfagos yng Nghymru a Lloegr).



Bydd ein hadrannau a'n cyfarwyddebau, gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am gomisiynu a contractio gwasanaethau gofal sylfaenol ac ysbytai, yn gallu manteisio ar yr adborth hwn ochr yn ochr â'r mewnwelediadau a gasglwn trwy ein harolygon ein hunain a mecanweithiau adborth amser real, straeon cleifion, mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (MCAG), mesurau profiad a adroddir gan gleifion (MPAG), cwynion a phryderon, canmoliaeth, digwyddiadau clinigol ac adroddiadau allanol (e.e. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru).

Rhannu gydag arweinwyr profiad cleifion ac ansawdd

Rydym wedi sicrhau bod yr adborth hwn gan Llais wedi'i rannu gydag arweinwyr profiad cleifion ac ansawdd yn y bwrdd iechyd fel y gallant ystyried hyn fel rhan o'u dull ehangach o wella ansawdd a gwasanaethau.

Myfyrion a dysgu yn ein Grŵp Llywio Profiad Cleifion

Fel rhan o'r broses hon roeddem yn ddiolchgar iawn am gyflwyniad ar ganfyddiadau allweddol yr adroddiad i'n Grŵp Llywio Profiad Cleifion chwarterol, ddydd Llun 20 Tachwedd. Roedd hyn yn gyfle i chi gyflwyno'r materion a'r themâu cryno o'ch ymgysylltiad ardal Ystradgynlais. Bydd hefyd yn sicrhau bod eich canfyddiadau wedi'u gwreiddio'n llawn yn ein dull ehangach o wella ansawdd.

Fel y cytunwyd yn y cyfarfod hwnnw, rydym yn bwriadu treialu dull gweithdy lle gall cynrychiolwyr Llais ddod ynghyd â chynrychiolwyr byrddau iechyd i rannu'r canfyddiadau allweddol o'ch plymio dwfn yn yr ymgysylltiad ardal. Gwnaethom gynnig y byddem yn treialu'r dull hwn ar gyfer eich gweithgaredd ymgysylltu presennol yn ardal Llanfair-ym-muallt a Llanwrtyd, a byddwn yn trefnu gweithdy ym mis Ionawr 2024 at y diben hwn.

Ymgorffori mewnwelediadau i'n Bwrdd a'n strwythur Pwyllgor

Bydd y dull hwn hefyd yn sicrhau bod uchafbwyntiau allweddol o'ch mewnwelediadau yn cael eu cynnwys yn ein Hadroddiadau Ansawdd Integredig sy'n cael eu cyflwyno a'u trafod yn gyhoeddus yn ein Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Profiad Cleifion.

Diolch am yr adroddiad hwn, a diolch i swyddogion a gwirfoddolwyr Llais am y gwaith rydych chi'n ei wneud i wrando a rhannu barn a phrofiadau pobl Powys.

Ymateb gan Gyngor Sir Powys

Diolch am eich adroddiad ymgysylltu diweddaraf o ardal Ystradgynlais.

Bydd y Tîm Adborth Gwasanaethau Cymdeithasol yn adolygu'r adroddiadau ac yn datblygu agweddau perthnasol drwy'r broses Sicrhau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant i ystyried dysgu a chanlyniadau a hyrwyddo arfer gorau. Mae camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu nodi a'u monitro, gyda themâu yn cael eu cofnodi yn yr Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth a Chwynion.

Mae ymateb Cyngor Sir Powys i adroddiadau Adborth Llais yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd Briffio Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r Deiliaid Portffolio a'u darparu i'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal.

Gall fod yn ddefnyddiol i drigolion Powys os yw Llais yn rhannu taflen Adborth Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys mewn digwyddiadau ymgysylltu a/neu'n cyfeirio preswylwyr at y dudalen Adborth ar

<https://cy.powys.gov.uk/article/11303/Proses-Cwyno-Canmol-a-Sylwadau-Gwasanaethau-Cymdeithasol>

Mae ymateb wedi'i gyfyngu gan natur ddiennw a mwy cyffredinol rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd. Yn ogystal, mae'n anodd ymateb lle nad oes unrhyw arwydd a yw'r preswilydd yn darparu adborth am wasanaeth a dderbynnir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig, neu un a ddarperir ar y cyd â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys er enghraifft. Felly, byddwn yn gofyn i Llais atgoffa trigolion y gallant gysylltu â Chyngor Sir Powys yn bersonol i godi eu materion a'u pryderon a derbyn ymateb mwy teilwredig i'w sefyllfa unigol.

Gallant ddefnyddio'r manylion cyswllt isod
SocialServicesFeedback@powys.gov.uk 01597 827515

Sylw	Ymateb	Gweithred
<p>Pryderon am argaeledd gweithwyr cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.</p>	<p>Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn parhau i gael eu recriwtio i lenwi swyddi gwag wrth iddynt godi. Lle bo angen, caiff asesiadau eu blaenoriaethu, ac mae rhestr aros ar waith i sicrhau bod asesiadau effeithiol yn digwydd i'r rhai sydd â'r angen mwyaf brys.</p> <p>Mae Cyngor Sir Powys yn parhau i fonitro adnoddau, gan gynnwys staffio, er mwyn sicrhau gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.</p> <p>Anogir unigolion sydd angen gofal a chymorth, neu sydd ar restr aros i gysylltu â Thîm CYMORTH ar 0345 602 7050 neu assist@powys.gov.uk</p>	
<p>Mae angen gwell cefnogaeth i drigolion lleol sy'n byw gyda dementia, gan gynnwys yr angen i weithiwr allweddol penodol ddarparu cysondeb.</p>	<p>Gellir cael gafael ar ofal a chymorth i'r rhai sy'n byw gyda Dementia, ynghyd â gwybodaeth am Wasanaethau Cymorth Cymunedol trwy ein Tîm CYMORTH, sy'n gweithio'n agos gyda Chysylltwyr Cymunedol.</p> <p>Cysylltwch â nhw ar 0345 602 7050 or assist@powys.gov.uk</p> <p>Gellir ymchwilio i'r Gwasanaethau Cymorth hefyd ar DEWIS sy'n gofrestr o wasanaethau cymorth cymunedol trwy www.dewis.cymru</p>	
<p>Mae angen mwy o opsiynau gofal yn y gymuned oherwydd poblogaeth yr ardal sy'n heneiddio a</p>	<p>Mae'r Tîm Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio i adolygu a helpu i ddatblygu opsiynau gofal yn y gymuned i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwaith cymdeithasol yn y gymuned.</p> <p>Mae'r gwaith yn parhau gyda phartneriaid yn y sector iechyd a'r trydydd sector drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p>	

<p>heriau daearyddol a all gymhlethu cyrchu gwasanaethau.</p>	<p>Mae croeso i breswylwyr roi gwybod i Dîm Adborth Gwasanaethau Cymdeithasol am wasanaethau allweddol y teimlant sydd ar goll yn eu cymuned.</p> <p>SocialServicesFeedback@powys.gov.uk 01597 827515</p>	
<p>Mae pobl hŷn yn ofni codi cwyn am wasanaethau.</p>	<p>Mae Tîm Adborth Gwasanaethau Cymdeithasol yno i helpu a chefnogi unigolion sy'n dymuno gwneud cwyn, y gellir ei gwneud yn ddiennw hefyd.</p> <p>SocialServicesFeedback@powys.gov.uk 01597 827515</p> <p>Mae cwynion bob amser yn cael eu cymryd o ddifrif, yn cael eu hymchwilio ac maent yn rhan bwysig o wella ymarfer a darparu a datblygu gwasanaethau.</p>	
<p>Codwyd tegwch ynghylch mynediad at wasanaethau, yn enwedig ynghylch Dechrau'n Deg.</p>	<p>Mae darpariaeth Gwasanaeth Dechrau'n Deg yn cael ei phennu gan yr ardaloedd a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ardaloedd o amddifadedd ac wedi'u targedu i roi 'dechrau teg' mewn bywyd i'r rhai y dangosir eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf o amddifadedd.</p>	
<p>Pryderon am dai, diffyg tai cymdeithasol, cost uchel adeiladau newydd, y straen y bydd datblygiadau newydd yn ei roi ar wasanaethau lleol; mae angen gwell</p>	<p>Mae'r meysydd gwasanaeth hyn yn fater i'r Timau Tai a Chynllunio.</p> <p>Mae effaith datblygiadau tai newydd ar bob gwasanaeth lleol, gan gynnwys gofal cymdeithasol, yn ystyriaeth bwysig. Mae'r rhain yn llywio cynlluniau gwasanaeth i wella mynediad i holl wasanaethau'r Cyngor fel rhan o Gynllun Ardal y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.</p>	<p>Bydd sylwadau'n cael eu rhoi i'r Pennaeth Tai a Phennaeth Cynllunio i'w hystyried.</p>

<p>seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol.</p>		
<p>Pryder am waredu cynhyrchion anymataliaeth, cost bagiau gwaredu a diffyg gwasanaeth a ddarperir gan y cyngor at y diben hwn.</p>	<p>Mae casgliadau Gwastraff Clinigol Heintus yn cael eu trefnu gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, dylai unigolion gysylltu â'u Tîm Nyrsio Cymunedol lleol yn eu Practis Meddygon Teulu. Mae Gwastraff Heintus yn cynnwys rhwymynnau, nodwyddau a swabiaiu. Dylid rhoi gwastraff nad yw'n heintus, fel padiau anymataliaeth, bagiau stoma, cynhyrchion misglwyf ac ati mewn bagiau dwbl a'u gadael gyda'r casgliad gwastraff arferol.</p> <p>Gellir gwneud cais am gapasiti gwastraff ychwanegol ar-lein https://cy.powys.gov.uk/article/1116/Sut-i-gael-gwared-ar-wastraff-clinigol</p>	<p>Bydd sylwadau'n cael eu trosglwyddo i'r Pennaeth Gwastraff Cartref ac Ailgylchu.</p>
<p>Dywedodd un o'r trigolion nad oedd gan eu merch (ag Awtistiaeth) gysylltiad bellach â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a mynegodd bryder am ei chfyleoedd cyfyngedig i ryngweithio o fewn y gymuned leol.</p>	<p>Gall unigolion ag anghenion Gofal a Chymorth, gan gynnwys gofalwyr, ofyn am asesiad i archwilio a all Gwasanaethau Cymdeithasol neu wasanaeth yn y gymuned ddiwallu eu hanghenion. Ar gyfer Oedolion: 0345 602 7050 neu assist@powys.gov.uk</p> <p>Ar gyfer plant a phobl ifanc: 01597 827666 (oriau swyddfa) 0345 054 4847 (tu allan i oriau swyddfa) csfrontdoor@powys.gov.uk</p> <p>Efallai y bydd cefnogaeth hefyd ar gael gan y Gwasanaeth Awstistiaeth Integredig o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. https://biap.gig.cymru/gwasanaethau/gwasanaethau-anabledau-</p>	

	<p>dysgu/gwasanaeth-awtistiaeth-integredig/</p> <p>Gellir ymchwilio i'r Gwasanaethau Cymorth hefyd ar DEWIS sy'n gofrestr o wasanaethau cymorth cymunedol www.dewis.cymru</p>	
--	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth a'r sylwadau a ddarperir yn ddefnyddiol, ac rwy'n croesawu adborth ar y fformat ymateb a/neu'r ddarpariaeth gwasanaeth.

DIOLCH

Diolchwn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal ac i rannu eu syniadau.

Gobeithiwn fod yr adborth y mae pobl wedi'i gymryd o'u hamser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda - a chymryd camau lle mae angen iddynt wneud cyn gynted ag y gallant i wella pethau.

ADBORTH

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn ei ddefnyddio i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

MANYLION CYSWLLT

RHANBARTH LLAIS POWYS,
LLAWR GYNTAF, NEUADD BRYCHEINIOG,
FFORDD CAMBRIAN,
ABERHONDDU, POWYS,
LD3 7HR.

FFÔN: 01874 624206
E-BOST: POWYSENQUIRIES@LLAISCYMRU.ORG
GWEFAN: WWW.LLAISCYMRU.ORG
FACEBOOK: @LLAISPOWYS
TWITTER: LLAIS_WALES

LLAWR GYNTAF,
TŶ LADYWELL,
Y DRENEWYDD, POWYS,
SY16 1JB.

FFÔN: 01686 627632